# Dinas a Sir Abertawe - Adroddiad Blynyddol Cynghorydd 2013-2014

Mae Adroddiad Blynyddol y Cynghorydd hwn yn amlinellu gweithgareddau'r Cynghorydd dros y flwyddyn a ddaeth i ben ar **7 Mai 2014**. Fe'i darperir er gwybodaeth i'r holl etholwyr ac nid oes ganddo ddiben arall. Barn y Cynghorydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o angenrheidrwydd yn adlewyrchu barn Dinas a Sir Abertawe

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cynghorydd:** | David Hopkins | Adran Etholiadol: | Townhill |

**Adran 1: Gweithgareddau yn yr etholaeth**

Mynychais gyfarfodydd PACT yn rheolaidd.

Cynhaliais gymorthfeydd yng Nghanolfan Gymunedol Mayhill a Gors bob mis.

Bûm yn aelod (ac rwy'n parhau'n aelod ar adeg ysgrifennu hwn) o Gorff Llywodraethu Plasmarl a bûm yn Gadeirydd Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Sea View am 25 mlynedd.

**Adran 2: Presenoldeb y Cynghorydd yng nghyfarfodydd penodol cyrff y cyngor**

Un elfen bwysig yn unig o ddyletswyddau Cynghorydd yw mynychu cyfarfodydd cyrff y Cyngor. Mae Cynghorwyr hefyd yn gweithredu drwy gynnal cymorthfeydd, mynd i gyfarfodydd ac ymateb i ymholiadau cyffredinol o'r adran etholiadol.

| | | |
|---|---|---|
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 1 | 0/3 | 0% |
| Pwyllgor Rheoli Datblygiad Ardal 2 | 0/9 | 0% |
| Y Cyngor | 15/15 | 100% |
| Pwyllgor Rheoli a Rheolaeth Datblygu | 2/8 | 25% |
| Pwyllgor Perfformiad a Chyflwyno | 0/3 | 0% |
| Fforwm Cyswllt â Myfyrwyr | 1/3 | 33% |
| CYFFREDINOL | 18/41 | 44% |

Dangosir uchod % presenoldeb yn seiliedig ar aelodaeth pwyllgor.

**Adran 3: Rôl a chyfrifoldebau'r Cynghorydd**

Bûm yn aelod (ac rwy'n parhau'n aelod ar adeg ysgrifennu hwn) o Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd Plasmarl ac yn aelod o Ganolfan y Ffenics.

Rwyf wedi mynychu cyfarfodydd PACT yn rheolaidd.

Rwyf wedi cynnal cyfarfodydd rheolaidd â Swyddfa Dai Ranbarthol Townhill.

Rwyf wedi cadeirio cyfarfodydd cyhoeddus yn ôl yr angen.

**Adran 4: Mentrau a Gweithgareddau Arbennig**

Rwyf wedi bod yn weithgar iawn yn y broses o adleoli Meddygfa Mayhill a Chanolfan Deuluoedd Mayhill ar safle hen barc Mayhill. Bydd y ganolfan newydd yn disodli'r feddygfa bresennol ar Heol Pen-y-graig a'r Ganolfan Deuluoedd ar Heol Mayhill, gan ddarparu adeilad cyfoes newydd i'r feddygfa a'r Ganolfan Deuluoedd.

Bûm yn ymwneud hefyd â chael gwared ar rwystrau traffig ar draws y bryn a chyflwyno mesurau tawelu traffig.

**Adran 5: Dysgu a Datblygu**

Yn anffodus, roedd yn amhosib i mi fynd i unrhyw gyrsiau hyfforddi yn ystod 2013-2014 oherwydd fy mod yn gweithio amser llawn. Serch hynny, mae gennyf brofiad a gwybodaeth helaeth o ganlyniad i wasanaethu fel Cynghorydd am flynyddoedd maith.

**Adran 6: Gweithgareddau a materion eraill**

Dros fy mlynyddoedd hir o gynrychioli ward Townhill, rwyf wedi bod ar gael bob amser i'r etholwyr; rwyf wedi rhoi sylw i'w problemau a cheisio eu datrys.

Ar adeg ysgrifennu hwn, fy mwriad yw parhau i wasanaethu pobl Mayhill, Townhill a Gors.

**Adran 7: Taliadau Cydnabyddiaeth i Gynghorwyr**

Cyflog sylfaenol - £13,175 y flwyddyn.

Gellir gweld ffurflenni hawlio costau teithio a chynhaliaeth cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13266&path=0&LLL=0

Gellir gweld treuliau a lwfansau blynyddol cynghorwyr yma:
http://democracy.swansea.gov.uk/ecCatDisplay.aspx?sch=doc&cat=13284&path=0&LLL=0

| | |
|---|---|
| Dyddiad: | 14.05.14 |